# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 8

DEHONGLI A DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Darpariaethau terfynol*

### 79 Rheoliadau

(1) Mewn perthynas ag unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—
- (a) rhaid ei arfer drwy offeryn statudol, a
- (b) mae'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo—
- (a) adran 5(4) (buddiannau esempt);
- (b) adran 18(2) (cydnabyddiaeth drethadwy);
- (c) adran 24(11) (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch);
- (d) adran 30(6) (rhyddhadau);
- (e) adran 33(7) (cwmnïau);
- (f) adran 34(6) (cynlluniau ymddiriedolaeth unedau);
- (g) adran 35(1) (cwmnïau buddsoddi penagored);
- (h) adran 36(8) (cynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth);
- (i) adran 41(2) (partneriaethau);
- (j) adran 42(2) (ymddiriedolaethau);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2017.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 79. (See end of Document for details)*

(k) adran 46(10) (trothwyon ar gyfer trafodiadau hysbysadwy);
(l) adran 47(5) (dyddiad dechrau llog taliadau hwyr);
(m) adran 49(5) (dyddiad dechrau llog taliadau hwyr);
(n) adran 52(1) (y cyfnod y mae'n rhaid dychwelyd ffurflen dreth o'i fewn);
(o) adran 64(1) (rheoliadau ynghylch gohirio treth);
(p) adran 72(10) (eiddo preswyl);
(q) paragraff 7 o Atodlen 3 (trafodiadau esempt);
(r) paragraff 27(2) o Atodlen 6 (codi treth ar elfen rent lesoedd preswyl);
(s) paragraff 32 o'r Atodlen honno (cyfradd disgownt amser ar gyfer lesoedd);
(t) paragraff 36(1)(b) o'r Atodlen honno (swm penodedig o rent perthnasol);
(u) paragraff 37 o'r Atodlen honno (pŵer i ddiwygio neu ddiddymu paragraffau 34 i 36);
(v) paragraff 6(7) o Atodlen 13 (rhyddhad anheddau lluosog: y ganran isaf o dreth sydd i'w phriodoli i anheddau);
(w) paragraff 3 o Atodlen 17 (rhyddhad caffael: cyfran y dreth a ryddheir).

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon (ac eithrio offeryn a grybwyllir yn is-adran (4)) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Nid yw is-adran (3) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—
(a) rheoliadau a wneir o dan adran 24(1) neu baragraff 27(4) neu 28(1) o Atodlen 6 (rheoliadau ynghylch cyfraddau treth a bandiau treth);
(b) rheoliadau a wneir o dan adran 78 y mae is-adran (3) o'r adran honno yn gymwys iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I1** A. 79 mewn grym ar 25.5.2017, gweler **a. 81(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 79.